Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Crud Y Werin**
**Aberdaron**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 8BP**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Crud y Werin wedi ei lleoli ar gyrion pentref Aberdaron ym Mhen Llŷn, Gwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos, sy'n cynnwys ardaloedd Y Rhiw, Uwchmynydd ac Anelog.

Mae cyfanswm o 67 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys wyth o ddisgyblion oed meithrin rhan amser. Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Daw tua 90% o'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl. Mae 12% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn llawer is na'r ffigwr cenedlaethol. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mai 2008.

Bu llawer o newid i sefyllfa staffio'r ysgol eleni. Mae'r pennaeth yn ei swydd ar gytundeb parhaol ers Ebrill 2014. Bu'n gweithredu fel pennaeth dros dro ers Medi 2013. Hefyd, mae dau o'r athrawon eraill a thair cymhorthydd sy'n newydd i'r ysgol eleni, ynghyd ag athrawes sy'n cyflenwi yn ystod cyfnod mamolaeth.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Crud y Werin yn 2013-2014 oedd £4,099. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd oedd £10,616 a'r lleiafswm oedd £2,936. Roedd Ysgol Crud y Werin yn y 51fed safle o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac yn ymroi i weithio'n ddiwyd a gwneud cynnydd priodol yn y gwersi;
- medrau llafar llawer o'r disgyblion yn y Gymraeg yn gryfder, gyda'r rhan fwyaf yn datblygu eu gallu i ddarllen ar goedd ac ysgrifennu yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed a'u gallu;
- disgyblion yn deall yn dda y meini prawf llwyddiant ar gyfer y tasgau a sut i wella eu gwaith, ac yn asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus;
- systemau olrhain cynnydd yr ysgol yn arwain at ddarparu cynhaliaeth ychwanegol effeithiol yn ôl yr angen i ddisgyblion unigol a grwpiau; a bod
- lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad disgyblion yn uchel, gyda'r disgyblion yn cyfranogi'n helaeth yng nghymuned yr ysgol a'r gymuned leol.

Fodd bynnag:

- yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau ysgrifennu a'u medrau resymu a datrys problemau rhifedd mewn ystod gynyddol o sefyllfaoedd;
- nid oes digon o gynnydd ym medrau llafar ac ysgrifennu disgyblion yn y Saesneg ar draws cyfnod allweddol 2;
- nid yw'r disgyblion yn cyflawni digon o waith mewn addysg grefyddol a gwaith arbrofol mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2; ac
- yn lleiafrif y gwersi, nid yw'r cynllunio yn ddigon manwl i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cael gwaith sy'n darparu digon o her iddynt.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweiniad cryf, sydd eisoes wedi arwain at welliannau clir mewn agweddau ar y ddarpariaeth;
- y corff llywodraethol yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth i'w alluogi i weithredu yn effeithiol fel cyfaill beirniadol a chyfrannu at bennu nodau gwella;
- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o wybodaeth yn deillio o arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau i nodi agweddau lle mae angen gwella; a bod
- y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau.

## Argymhellion

A1 Codi safonau siarad ac ysgrifennu Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod disgyblion yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu a rhifedd ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod her y gweithgareddau dysgu yn galluogi disgyblion o bob lefel gallu i wneud cynnydd llawn yn y gwersi

A4 Sicrhau bod disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd yng nghyfnod allweddol 2 i wneud cynnydd yn eu dealltwriaeth a'u medrau mewn addysg grefyddol a gwaith arbrofol mewn gwyddoniaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn llawer o'r gwersi, mae disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar gyfraniadau llafar ei gilydd. Mae llawer yn defnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol ac yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn y gwersi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn cyfrannu'n eiddgar ar lafar, gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa a ffurfiau berfol yn hyderus. Gwnânt gynnydd da iawn yn mynegi barn yn gytbwys ar faterion yn ymwneud â'u gwaith yn y dosbarth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn medru siarad yn hyderus am eu gwaith. Mae ansawdd y mynegiant yn lân. Gwna rhan fwyaf y disgyblion gynnydd clir yn eu gallu i siarad â hyder mewn ystod o sefyllfaoedd. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i drafod ac ymateb yn fwy estynedig yn y Saesneg.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd yn meithrin medrau darllen cynnar, ac yn medru ymdopi yn llwyddiannus â geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru darllen ar goedd yn y Gymraeg yn ystyrlon ac yn ddealladwy ac â goslef briodol. Maent hefyd yn gwneud cynnydd cychwynnol priodol mewn darllen Saesneg. Mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau darllen yn rheolaidd ac yn medru llunio broliant yn llwyddiannus i annog darllenwyr eraill. Gallant gyflwyno gwybodaeth syml ar sail ymchwilio mewn llyfrau gwybodaeth ac ar y we.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn hyderus ac ystyrlon yn y ddwy iaith. Er hynny, mae ychydig yn ei chael hi'n anodd ymdopi â geiriau anghyfarwydd a heb fod yn rhoi digon o sylw i atalnodi wrth ddarllen. Mae llawer o'r disgyblion yn ymddiddori mewn llyfrau ac maent yn cywain gwybodaeth ar gyfer ei chyflwyno fel rhan o'u gwaith thema. Nid oes digon o gynnydd ar draws cyfnod allweddol 2 yng ngallu disgyblion i drafod agweddau ar ffuglen ac ymateb i'r hyn y maent yn ei ddarllen.

Gwna bron pob disgybl gynnydd priodol yn datblygu eu medrau ysgrifennu cychwynnol yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn medru ysgrifennu yn estynedig, gan gyfuno ystod o batrymau berfol, ac amrywio dechrau brawddegau. Mae ganddynt afael gadarn ar ffurfiau cryno'r ferf a gwna llawer ddefnydd cynyddol o atalnodi sylfaenol yn eu gwaith. Maent yn ysgrifennu yn llwyddiannus i ystod o bwrpasau ac yn dechrau defnyddio medrau drafftio yn llwyddiannus i ddatblygu a gwella eu gwaith

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gwaith llawer o'r disgyblion yn dangos cynnydd clir yn y gallu i ysgrifennu yn estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda safon briodol o ran gafael ar eirfa a chywirdeb mynegiant. Maent yn medru defnyddio'r cywair priodol wrth fynegi safbwyntiau yn glir ac yn gytbwys, er enghraifft

wrth drafod melinau gwynt yn y Saesneg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu defnydd o'u medrau ysgrifennu estynedig mewn pynciau eraill, yn enwedig yn eu gallu i ysgrifennu yn Saesneg mewn ystod gynyddol o gyd-destunau. Mae gormod o wallau sillafu geiriau cyffredin yn nodwedd o waith lleiafrif o ddisgyblion yn y Saesneg.

Mae cynnydd disgyblion yn ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn anwastad ar draws yr ysgol.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ar draws yr ysgol yn eu gafael ar fedrau sylfaenol rhif. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn perthynas â'u gwaith ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ar draws cyfnod allweddol 2 yn eu defnydd o fedrau rhifedd i resymu a datrys problemau.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni gystal ag y gallent, yn enwedig yng nghyswllt eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Gall y niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o un flwyddyn i'r llall.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn ei gosod ymhlith y 25% uchaf yn 2013, ond gan mwyaf yn y 25% isaf yn y flwyddyn flaenorol. Ar y deilliant uwch, mae'r ysgol wedi bod gan mwyaf yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth ac yn y Gymraeg wedi ei gosod yn gyson yn y 25% uchaf dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn y dangosydd pynciau craidd ac mewn Saesneg a mathemateg, mae perfformiad wedi bod yn gyson yn y 25% isaf. Ar y lefelau uwch, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod ymhlith y 25% isaf neu'r 50% is ymhob dangosydd yn 2013, ond gan mwyaf yn y 25% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

**Lles: Da**

Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n iach a ffordd o fyw egnïol. Dywed pob disgybl eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn yr ysgol a'u bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio.

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder yn eu gwaith, gyda llawer yn dyfalbarhau wrth weithio'n annibynnol ac yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd. Mae parch, gofal a phryder y disgyblion am eraill a safonau ymddygiad yn gryfder. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais o amgylch yr ysgol.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf

Mae'r disgyblion yn mwynhau'r cyfle i ymgymryd â chyfrifoldebau drwy eu cyfraniad i'r cyngor ysgol, gyda llais y dysgwr yn gryf ym mywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod safbwyntiau eu cyd-ddisgyblion a'u syniadau. Mae'r cyngor wedi prynu tanc i arbed dŵr glaw, sefydlu gardd newydd i'r ysgol a threfnu hyfforddiant i rieni ar ddefnyddio 'apps' cyfrifiadurol.

Mae'r disgyblion yn meddu ar ymwybyddiaeth gref o'r gymuned leol yn sgil eu cysylltiadau â'r clybiau pensiynwyr a ieuenctid, ynghyd â'u cyfranogiad yn natblygiad canolfan ragoriaeth forwrol y pentref.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd yn y dysgu. Mae'r profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Serch hynny, yng nghyfnod allweddol 2, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn addysg grefyddol a gwneud cynnydd mewn gwaith arbrofol mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i fanteisio ar ymweliadau beirdd, llenorion ac artistiaid Cymreig megis Leusa Llywelyn, ac maent yn dysgu am waith R.S Thomas fel rhan o'u gwaith thema ac yn cymryd rhan yn eisteddfod leol Uwchmynydd. Mae'r ystod da o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol yn boblogaidd gan lawer o'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi dechrau mapio'r medrau llythrennedd a rhifedd i'r pynciau cwricwlaidd yn unol â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhesymu a datrys problemau mewn rhifedd ac ysgrifennu mewn ystod o gyd-destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o gynaladwyedd a materion amgylcheddol yn llwyddiannus iawn trwy waith yr 'ysgol werdd' a'r cyngor ysgol Mae'r disgyblion yn chwarae rhan ganolog yn yr ailgylchu ac arbed dŵr. Yn ogystal, mae'r profiadau dysgu yn rhoi cyfle priodol i ddatblygu dealltwriaeth o 'fasnach deg' ac i ddatblygu ymwybyddiaeth o ffordd o fyw mewn gwledydd eraill.

## Addysgu: Digonol

Mae athrawon yn llwyddo i feithrin a chynnal cydberthynas dda rhyngddynt a'r disgyblion, ac yn creu amgylchedd ddysgu cynhaliol yn y gwersi. Yn llawer o'r gwersi, mae'r gweithgareddau dysgu yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion ac mae'r dilyniant cydlynol o dasgau yn cynnal eu diddordeb.

Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i weithio ar y cyd mewn grwpiau bach. Fodd bynnag, yn lleiafrif y gwersi, nid oes digon o addysgu uniongyrchol i ddatblygu

dealltwriaeth a chynnydd ym medrau'r disgyblion, yn enwedig medrau llafar yn y Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Yn rhan fwyaf y gwersi, mae'r athrawon yn cydweithio yn agos â'r cymorthyddion dosbarth i sicrhau bod lefelau priodol o gynhaliaeth i unigolion a grwpiau yn ôl yr angen. Er hynny, yn lleiafrif y gwersi, nid oes digon o ystyriaeth i lefelau gallu gwahanol mewn dosbarth i sicrhau bod disgyblion gallu uwch, yn enwedig, yn gwneud cynnydd llawn. Ar brydiau, nid yw athrawon yn holi cwestiynau digon penodol i'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o agweddau ar y gwaith.

Yn rhan fwyaf y gwersi, mae'r athrawon yn rhannu meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion i'w helpu i ddeall yr hyn sy'n gwneud gwaith da. Caiff disgyblion gyfleoedd helaeth i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion. Mae llawer o'r marcio yn dangos yn glir y ffordd i wella ac mae'r targedau llwyddiant yn glir i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau olrhain cynnydd priodol sy'n arwain at ddarparu cymorth ychwanegol effeithiol i ddisgyblion unigol a grwpiau yn ôl yr angen.

Mae adroddiadau i rieni yn adrodd yn glir ar gynnydd disgyblion, ynghyd â nodi targedau priodol ar gyfer yr hyn i'w wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae ganddi drefniadau priodol i hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn yn llwyddiannus iawn ar draws yr ysgol, gyda'r disgyblion yn elwa'n fawr o fod yn chwarae rhan arweiniol. Mae sesiynau 'amser cylch' ac 'amser Caleb' yn cyfrannu'n effeithiol at les emosiynol y disgyblion.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad da, yn cynnwys cynllun gwobrwyo 'cyflawnwyr campus'. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol fel gwasanaethau lleferydd ac iaith a'r seicolegydd addysg i fanteisio ar gymorth arbenigol i ddisgyblion pan fydd angen.

Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion eu nodi yn gynnar ac mae systemau priodol i olrhain cynnydd y disgyblion hyn a chymryd camau dilynol yn ôl yr angen. Mae'r cynlluniau addysgu unigol ar gyfer y disgyblion yn cynnwys targedau clir, ac mae trefniadau priodol ar gyfer trafod cynnydd â'r rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos Cymreig cynhaliol yn treiddio trwy holl fywyd a gwaith yr ysgol, gyda disgyblion a'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gymuned gynhwysol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfrifoldeb ac ymdrech yn llwyddiannus, ac mae mentrau fel 'swyddogion

slic' a 'ffrindiau ffeind' yn datblygu agweddau cadarnhaol o ran cyfrifoldeb a goddefgarwch yn llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol hefyd yn cynllunio gweithgareddau penodol i hyrwyddo parch at amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol.

Mae adeiladau'r ysgol yn darparu amgylchedd ysgogol i ddisgyblion ddysgu, gyda'r ardaloedd addysgu yn olau a deniadol. Mae nifer o arddangosiadau ar y waliau sy'n dangos gwaith a chyflawniadau. Mae'r adeilad yn cynnig digon o le. Fodd bynnag, mae cynllun agored rhwng dau ddosbarth yn amharu ar y dysgu ar brydiau. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu.

Mae'r ardaloedd awyr agored eang yn darparu amgylchedd diddorol ac amrywiol. Maent yn cynnwys cyfleusterau eang ar gyfer chwaraeon ac ystod o offer chwarae. Mae ystod dda o offer ac adnoddau addas sy'n cyfoethogi profiadau dysgu yn ardaloedd allanol y Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer datblygu'r ysgol a phennu cyfeiriad strategol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ac mae staff a llywodraethwyr yn deall yn glir y bwriadau ar gyfer gwella. Mewn cyfnod cymharol fyr, a chyfnod o ansefydlogrwydd yn y sefyllfa staffio, mae nifer o welliannau wedi eu cyflawni sydd wedi gwella ansawdd agweddau ar y ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r nodau datblygu yn perthnasu'n glir â blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig yn gysylltiedig â chodi safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sydd yn nodi cyfrifoldebau priodol yn glir. Bu cynnydd da yn ystod y flwyddyn yn datblygu cyfraniad cydlynwyr yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff a llywodraethwyr yn cael eu defnyddio i drafod blaenoriaethau a chynnydd yn rheolaidd, gyda sylw clir i godi safonau.

Derbynia'r corff llywodraethol adroddiadau manwl sydd yn cyfeirio at berfformiad disgyblion a'u cyrhaeddiad a'r cynnydd yn cyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau manwl wedi eu seilio ar arsylwadau dosbarth gan y pennaeth a chraffu ar lyfrau. Hefyd, mae'r adroddiadau ar ddata perfformiad wedi arwain at well dealltwriaeth gan y llywodraethwyr o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill tebyg. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn gwneud cyfraniadau buddiol fel 'cyfeillion beirniadol' ac wedi dechrau cyfrannu at brosesau cynllunio strategol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses hunan arfarnu wedi ei seilio ar gasglu gwybodaeth o ystod briodol o ffynonellau, gan gynnwys monitro gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Yn ogystal, mae'r pennaeth yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn fanwl, sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth briodol i gymariaethau ag ysgolion eraill y teulu a'r meincnodau prydau ysgol di-dâl. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella.

Mae'r pennaeth a'r cydlynwyr yn llunio adroddiadau cynhwysfawr am ansawdd y ddarpariaeth. Mae adroddiadau monitro gwersi a chraffu ar lyfrau yn cyfeirio'n glir at gryfderau a'r mannau sydd angen eu gwella, gyda'r trefniadau ar gyfer ail-ymweld yn dilyn arsylwadau gwersi yn gryfder.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen fanwl sy'n cynnig arfarniadau cytbwys. Mae'n rhoi sylw priodol i arfarnu safonau a chynnydd yng ngwaith disgyblion yn y gwersi ac yn eu llyfrau, ynghyd ag arfarnu ansawdd yr addysgu ar sail arsylwadau gwersi.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant, ynghyd ag adolygiad trylwyr o'r cynnydd mewn perthynas â bwriadau'r cynllun blaenorol. Mae'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'n bwriadau yn fanwl, ac amserlen weithredu a chyfrifoldebau staff yn glir. Mae'r cynllun hefyd yn gwneud defnydd helaeth o ddangosyddion llwyddiant i fesur cynnydd, yn cynnwys targedau meintiol heriol yn gysylltiedig â chodi safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae perthynas gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cydlynydd TGCh yr ysgol, gyda chymorth aelodau'r cyngor ysgol, wedi darparu cyflwyniad i rieni ar ddefnyddio cyfrifiaduron 'tabled' i'w cynorthwyo i roi help i'w plant gartref â llythrennedd a rhifedd. Derbyniodd y rhieni hefyd arweiniad defnyddiol ar ddefnydd diogel o'r we.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r cylch meithrin i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan adeg cychwyn yn y dosbarth meithrin. Mae rhaglen addas o weithgareddau ar y cyd ag Ysgol Botwnnog i helpu disgyblion adeg trosglwyddo i addysg uwchradd. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch i safoni a chymedroli asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae partneriaeth dda gydag asiantaethau allanol. Mae swyddog cyswllt yn ymweld â'r ysgol yn dymhorol i gynnal sesiynau ar faterion yn cynnwys cadw'n ddiogel, bwlio technolegol a pheryglon yn gysylltiedig â chyffuriau. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos â Cadw Cymru'n Daclus er mwyn sicrhau parch y disgyblion at yr amgylchfyd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn llwyddiannus ac mae yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Gwna ddefnydd da o arbenigeddau staff drwy gyfnewid dosbarthiadau i addysgu agweddau ar y cwricwlwm, Hefyd, mae'n manteisio ar arbenigedd athrawes ran amser i ddatblygu medrau garddio a thrin y tir.

Mae pwyslais cryf ar ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus i'r holl staff. Eleni, bu'r pennaeth yn darparu hyfforddiant i'r cymorthyddion ar gyfer eu huwch-sgilio. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r hyn sydd eisiau ei wneud i sicrhau cyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae cyfleoedd buddiol i

staff i arsylwi arfer dda yn yr ysgol ac mewn ysgolion eraill. Er hynny, nid oes prosiectau penodol ar y cyd ag ysgolion eraill nac yn fewnol i wella agweddau ar y ddarpariaeth a chodi safonau. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu i sicrhau profiadau dysgu cymwys.

Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn rheoli gwariant yn ofalus i sicrhau nad oes gorwariant a bod swm y cyllid wrth gefn yn rhesymol.

O ystyried safonau cyflawniad, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gall y niferoedd bach o ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2013, roedd cyflawniadau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg ymhob maes dysgu. Ac eithrio mewn datblygiad mathemategol, roedd cyflawniadau'r disgyblion ar y deilliant uwch yn 2013 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu, yn enwedig medrau iaith cyfathrebu a llythrennedd Cymraeg.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen yn ei gosod ymhlith y 25% uchaf yn 2013, ond gan mwyaf yn y 25% isaf yn y flwyddyn flaenorol. Ar y deilliant uwch, mae'r ysgol wedi bod gan mwyaf yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd cyflawniadau'r disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn 2013 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y Gymraeg ac mewn gwyddoniaeth ond yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn mathemateg ac yn Saesneg. Ar y lefelau uwch, roedd cyflawniadau'r disgyblion yn 2013 yn is na chyfartaleddau'r teulu ymhob pwnc, ac eithrio mewn gwyddoniaeth.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn gwyddoniaeth ac yn y Gymraeg wedi ei gosod yn gyson yn y 25% uchaf dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn y dangosydd pynciau craidd ac mewn Saesneg a mathemateg, mae perfformiad wedi bod yn gyson yn y 25% isaf dros y blynyddoedd diwethaf. Ar y lefelau uwch, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod ymhlith y 25% isaf neu'r 50% is ymhob dangosydd yn 2013, ond gan mwyaf yn y 25% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Oherwydd y niferoedd bach ymhob grŵp blwyddyn, a'r niferoedd bach o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, nid yw'n briodol i ddadansoddi perfformiad cymharol bechgyn a merched na chymharu perfformiad y grŵp o disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol di-dâl â gweddill y garfan.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 27 | 26<br>96% | 1<br>4% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 27 | 26<br>96% | 1<br>4% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 28 | 27<br>96% | 1<br>4% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 18 | 12 | 4 | 0 | 1 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 67% | 22% | 0% | 6% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 18 | 13 | 3 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 17% | 6% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 18 | 13 | 4 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 18 | 14 | 2 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 78% | 11% | 11% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 18 | 10 | 3 | 2 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 56% | 17% | 11% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 18 | 12 | 4 | 0 | 1 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 22% | 0% | 6% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 18 | 12 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 17 | 9 | 6 | 1 | 1 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 53% | 35% | 6% | 6% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 13 | 1 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 76% | 6% | 6% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 18 | 12 | 6 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 18 | 13 | 3 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 72% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 8 | 5 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 53% | 33% | 7% | 7% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 18 | 13 | 4 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 72% | 22% | 6% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 18 | 12<br>67% | 5<br>28% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 18 | 11<br>61% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 18 | 11<br>61% | 5<br>28% | 0<br>0% | 1<br>6% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 13 | 6<br>46% | 3<br>23% | 2<br>15% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 18 | 10<br>56% | 7<br>39% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 18 | 10<br>56% | 5<br>28% | 1<br>6% | 1<br>6% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Gwynn Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Llinos Jones | Nominee |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.